



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODIWL

ECAD5013/C

**Cylch 2 Astudiaethau Craidd: Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau:
Ble ydw i'n addysgu?**

BA (Anrhydedd) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig

Lefel 5

20 Credyd

Yr Athrofa

2025-2026

Ailddilyswyd Hydref 2023 i dderbyn myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2024

1. Manylion Cyswilt

Arweinydd y Modiwl: Laurie Thomas Laurence.thomas@uwtsd.ac.uk

Tîm y Modiwl:

Rachel Bendall

2. Ein Disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modiwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu.

Dylech wneud y canlynol:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darlennwch [Reoliadau Myfyrwyr](#) y Brifysgol a Pholisi Ymgysylltu'r Athrofa.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN(ION)

- Rhoi i ddarpar athrawon y sgiliau sydd eu hangen i ddadansoddi sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar faterion a datblygiad ysgol gyfan.
- Paratoi darpar athrawon i gyfrannu at systemau ysgol a chynllun cwricwlwm sy'n diwallu anghenion yr ysgol a'i chymuned.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu

- gwerthuso sut mae ysgolion gwahanol yng Nghymru yn ymgysylltu â'u cymunedau ac yn diwallu eu hanghenion trwy ymchwilio i arfer da; nodi a dadansoddi sut mae meysydd sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol yn dylanwadu ar faterion ysgol gyfan, er enghraifft cynwysoldeb, amrywiaeth a thegwch;
- archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar yr amgylchedd dysgu a sut y rheolir hyn yn effeithiol mewn ystafell ddosbarth.

CYNNWYS DANGOSOL

- Datblygu dealltwriaeth o'r modd y mae ysgolion yn gweithredu polisïau cenedlaethol ac yn rhoi cwricwlwm ar waith i ddiwallu anghenion cymuned yr ysgol. Dyfnhau dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o ysgolion a chymunedau a'r modd y maent yn ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol, eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer y cymunedau a wasanaethir ganddynt.
- Archwiliad pellach o'r cysyniad o ysgol a'i chymuned trwy ystyried y gwahanol ddiffiniadau o gymuned a'i rhanddeiliaid perthnasol. Er enghraifft, dangos ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu ysgolion wrth wneud y cwricwlwm yn hygyrch a pherthnasol, gyda grwpiau dysgwyr gwahanol gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig (e.e. ceiswyr lloches); dysgwyr o fwyafrifoedd byd-eang; mewnfudwyr; sipsiwn, Roma a Theithwyr; y rhai sy'n symud i ysgolion a chymunedau Cymraeg eu hiaith; y rhai sydd ag iaith heblaw'r Saesneg yn famiaith iddynt.
- Y cyfle i gymharu a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddir mewn systemau addysg cenedlaethol eraill i ddefnyddio ac ymgysylltu â'u cymunedau. Nodi a chymhwyso'r hyn y gellir ei ddysgu o ddulliau gwledydd eraill i wella profiadau yn y system addysg yng Nghymru.

- Ystyriaeth a dadansoddiad beirniadol o'r modd y mae ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr yn dod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i ddod yn ddinasyddion eu cymuned, Cymru a'r byd. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at gymunedau ysgol; cyfiawnder cymdeithasol a thegwch; cydlyniant cymunedol.
- Ymchwiliad i'r modd y mae ysgolion yn hyrwyddo ac yn sicrhau bod dysgwyr yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Adfyfrio ar fentrau a pholisïau cenedlaethol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r agweddau hyn yn y dysgwr a'r gymuned ehangach.
- Cyfle i ystyried cyfranogiad y gymuned ac ymgysylltu â'r gymuned, a dadansoddi enghreifftiau o brosiectau ac astudiaethau achos ymgysylltu ysgolion sydd wedi dangos effaith gadarnhaol ar ddysgu.
- Datblygu ethos personol blaengar a rhagweithiol i feithrin a symbylu dysgwyr Cymraeg, rhifog, llythrennog a digidol gymwys a chwricwlwm perthnasol. Adolygu astudiaethau achos ysgolion sy'n llwyddiannus yn y maes hwn.

4. Gwybodaeth Asesu

DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae 30 o oriau addysgu wedi'u hamserlennu ar gyfer y modiwl hwn.

Mae'r amser astudio ar gyfer y modiwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran (%)
Dysgu wedi'i amserlennu	30	15
Dysgu annibynnol	150	75
Dysgu drwy leoliad	20	10
CYFANSWM	200	100

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysoliad
Asesiad ysgrifenedig	2750 o eiriau	100%

CRYNODEB O'R ASESIAD

Math o Weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100%
CYFANSWM	100%

5. Cynnwys y Modiwl

Mae Ymagweddau Ymchwil Yr Athrofa, fel y disgrifir isod, wedi'u hymgorffori i gynnwys, a gweithgareddau dysgu ac addysgu'r modiwl:

Ymagwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau
Bod yn sgeptigol	Deall tystiolaeth empirig mewn maes lle mae anghytundeb: Bod yn ymwybodol o'r gyrrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
Bod yn foesegol	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall ymagweddau mewn ymchwil; - Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
Bod yn ymchwilydd medrus	Deall egwyddorion ymchwil gwyddor gymdeithasol, a gwybod beth yw'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmataidd. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol; - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Bod yn sgeptigol eich agwedd at y 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gymorth a allai fodoli ai peidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu: - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: - Bod yn glir am yr hyn a fwriadwyd a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; - Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; - Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau eraill.

Rhif y Sesiwn	Diwrnod	Dyddiad	Cyfnod / Amser	Cynnwys
1	Iau	12/03/26	2: 11:00 – 12:40	Beth yw ECAD5013-C? Cyflwyniad i'r modiwl: • Amcanion y modiwl • Cynnwys y modiwl • Asesu Cysylltiadau rhwng PAP a'r modiwl
2	Iau	12/03/26	3: 13:30 – 15:30	Sut byddaf yn cael fy asesu? Mewnbwn aseiniad: • Manyleb • Strwythur Enghreifftiau o gynigion prosiect
3	Gwe	13/03/26	1: 09:00 – 10:40	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar Gymru Siaradwr gwadd: Dr Huw Griffiths (wedi'i gadarnhau) Cynefin, perthyn a chynhwysiant
4	Gwe	13/03/26	2: 11:00 – 12:40	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar Gymru Siaradwr gwadd: Dr Huw Griffiths (wedi'i gadarnhau) Cynefin, perthyn a chynhwysiant
5	Llun	16/03/26	1: 09:00 – 10:40	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar Gymuned 1. Beth yw ystyr 'cymuned'? 2. Beth yw prosiect ysgol-gymuned? 3. Archwiliad o astudiaethau achos 4. Beth yw'r materion sy'n effeithio ar ein hysgolion a'n cymunedau? 5. Beth mae'r penawdau'n ei ddweud wrthym (a beth nad ydynt yn ei ddweud wrthym)?
6	Llun	16/03/26	2: 11:00 – 12:40	Siaradwr gwadd: Mathew Davies (wedi'i gadarnhau) 1. Cynllunio am gynhwysiant
7	Llun	16/03/26	3: 13:30 – 15:30	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar Ddysgwyr 2. Pam mae perthyn a chynhwysiant yn gysyniadau pwysig mewn addysg
8	Maw	17/03/26	1: 09:00 – 10:40	Cynllunio gwersi fy hwn: Adfyfrio ac Adolygu Sut alla i fod yn fwy cynhwysol yn y dyfodol? Archwilio adnoddau defnyddiol Ystyriaethau ar gyfer fy nghynnig prosiect

9	Maw	17/03/26	2: 11:00 – 12:40	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar Ysgolion Beth yw cyfiawnder cymdeithasol a pham mae'n bwysig? Sut mae'n cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru Beth mae 'datblygu gweledigaeth' yn ei olygu?
10	Maw	17/03/26	3: 13:30 – 15:30	Ble ydw i'n addysgu? Ffocws ar gyd-destunau y tu allan i'r ysgol 3. Lleoedd o ddiddordeb 4. Asesiadau risg 5. Ystyriaethau pwysig 6. Cysylltiadau i'r cwricwlwm 7. Cynllunio ymweliad
11	Gwe	20/03/26	1: 09:00 – 10:40	Beth yw'r cyfleoedd a'r rhwystrau i ymgysylltu ag ysgolion a'r gymuned?
12	Gwe	20/03/26	2: 11:00 – 12:40	1. Archwiliad o gyfleoedd a rhwystrau 2. Sut y gellir goresgyn rhwystrau?
13	Gwe	20/03/26	3: 13:30 – 15:30	3. Ymweliad â'r ystafell dechnoleg trochi
14	Maw	24/03/26	1: 09:00 – 10:40	Cynllunio fy mhrosiect ysgol-cymunedol fy hun: nodi fy nghynnig prosiect 1. Beth? 2. Pam? 3. Sut?
15	Maw	24/03/26	2: 11:00 – 12:40	Dod â'r cyfan ynghyd 1. Diagram Lotus 2. Sut mae fy narlithoedd yn cysylltu â fy aseiniad?
Aseiniad galw heibio	Iau	27/04/26	3: 13:30- 14:30	Sesiwn ddewisol i ailedrych ar ofynion yr aseiniad a gofyn cwestiynau i Arweinydd y Modiwl. ECAD5013 Assignment Drop In Meeting-Join Microsoft Teams

6. Tasgau ac Arweiniad Asesu

Gweler y Fanyleb Asesu ar gyfer y modiwl hwn sydd ar gael yn Moodle o dan “Gwybodaeth Asesu”.

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Defnyddiwch Leganto ar gyfer y rhestr ddiweddaraf.